



Y RHWYDWAITH
YMCHWIL IECHYD
MEWN YSGOLION


THE SCHOOL
HEALTH RESEARCH
NETWORK

shr.n.org.uk

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (Y Rhwydwaith)

Diweddaru'r derminoleg ynghylch
defnyddio e-sigaréts, mewn arolwg
cenedlaethol mewn ysgolion:
effeithiau ar adroddiadau am
ddefnydd, oedran cychwyn a
niwed

Briff Ymchwil, Gorffennaf 2025



Rhwydwaith Ysgolion Cymru
sy'n Hybu Iechyd a Lles
Welsh Network of Health and
Well-being Promoting Schools



Centre for Development, Evaluation, Complexity
and Implementation in Public Health Improvement
A Public Health Research Centre of Excellence



GIG
CYMRU
NHS
WALES | Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



CANCER
RESEARCH
UK



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Awduron

[Max. R. Ashton](#), Prifysgol Caerdydd
[James. J. Lewis](#), Prifysgol Caerdydd
[Chris Emmerson](#), Iechyd Cyhoeddus Cymru
[Lianna Angel](#), Prifysgol Caerdydd
[Nicholas Page](#), Prifysgol Caerdydd

Er Dyfynnu: Ashton, M. R., Lewis, J. J., Emmerson, C., Angel, L., a Page, N. 2025. Diweddaru'r derminoleg ynghylch defnyddio e-sigaréts, mewn arolwg cenedlaethol mewn ysgolion: effeithiau ar adroddiadau am ddefnydd, oedran cychwyn a niwed. *Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith)*: Briff Ymchwil, Gorffennaf 2025.

Diolch

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith) yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru. Cydnabyddir gyda diolch am gyllid seilwaith y Rhwydwaith trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru rhwng 2015 a 2025. Cafwyd cyllid ar gyfer Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2023 y Rhwydwaith trwy gymorth gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Adran Addysg Llywodraeth Cymru. Diolchwn i'r holl ysgolion a myfyrwyr a gymerodd ran yn 2023 am barhau i gefnogi'r Rhwydwaith.

Crynodeb

Diben: Gallai methu addasu yn wyneb newidiadau cymdeithasol mewn iaith, o e-sigaréts i fêps, gynyddu'r posibilrwydd o duedd mewn mesuriadau mewn arolygon o bobl ifanc. Archwiliom yr effeithiau ar adroddiadau am ddefnyddio e-sigaréts, oedran cychwyn ac amgyffredion o niwed, yn sgil cyflwyno iaith am fepio mewn arolwg cenedlaethol o'r glasoed mewn ysgolion yng Nghymru.

Dulliau: Cafwyd data trawstoriadol o Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2023 y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion o bobl ifanc 11 i 16 oed. Dewiswyd myfyrwyr ar hap i gael cwestiynau am 'e-sigaréts' neu 'e-sigaréts/fêps'. Defnyddiwyd modelau atchwel i asesu unrhyw wahaniaeth mewn ymatebion cyfranogwyr rhwng grwpiau.

Canlyniadau: Roedd amcangyfrifon o ddefnyddio e-sigaréts fyth, eu defnydd rheolaidd, ac oedran cychwyn, yn debyg rhwng y grwpiau e-sigaréts ac e-sigaréts/fêps. Er bod rhywfaint o fân wahaniaeth yn yr amgyffrediad o niwed, ni arweiniodd hyn at dueddiadau a oedd yn cyferbynnu'n sylweddol.

Casgliadau: Ni wnaeth defnyddio 'e-sigaréts' neu 'e-sigaréts/fêps' effeithio ar ymatebion i gwestiynau'r arolwg am ddefnydd mewn sampl mawr o'r glasoed yn y DU, gan awgrymu y gall yr olaf fod yn ddiweddariad derbyniol i derminoleg mewn arolygon presennol o bobl ifanc.

Geiriau allweddol: e-sigarét; fepio; glasoed; arolwg ysgol; y DU

Cyflwyniad

Mae toreth o fathau o ddyfeisiau wedi arwain at amrywiaeth yn y termau a ddefnyddir i ddisgrifio e-sigaréts. Er mai ‘e-sigarét’ a ‘fêp’ yw’r disgrifiadau mwyaf cyffredin, mae amryw ddisgrifiadau eraill yn bodoli, gan gynnwys ‘e-hookahs’, ‘vape pens’, ‘mods’, ‘tanks’, ac enwau brand poblogaidd (e.e. JUUL, Elfbar).¹⁻⁴ Mae astudiaethau wedi dangos bod y term e-sigarét yn cael ei ddefnyddio’n nodweddiadol i ddisgrifio dyfeisiau hŷn, sy’n edrych fel sigarét, ond mae dyfeisiau mwy cyfoes nad ydynt ar siâp sigarét yn cael eu disgrifio’n amlach fel fêps.^{2, 3} Mae hyn yn peri her i ddulliau goruchwyllo iechyd y cyhoedd sy’n dibynnu ar fesurau tebyg i asesu newid gydag amser – a gall fod yn broblem arbennig wrth asesu’r defnydd ymhlith carfanau o blant a’r glasoed y gall termau penodol fynd yn llai cyfarwydd iddynt os bydd cynhyrchion yn parhau i arloesi’n gyflym.⁴ Felly, cyfyng-gyngor i’r rhai sy’n arwain arolygon ar raddfa fawr yw gwybod beth yw’r ffordd orau o gynnal tebygrwydd ag amcangyfrifon blaenorol, ac addasu ar yr un pryd i’r newid hwn mewn iaith o e-sigaréts i fêps er mwyn atal tuedd bosibl mewn mesuriadau.⁵ Yn yr astudiaeth hon, defnyddiodd yr awduron eu rôl o ran dylunio a chyflwyno arolwg cenedlaethol mawr mewn ysgolion yng Nghymru, i archwilio tebygrwydd mewn adroddiadau’r glasoed am y defnydd o e-sigaréts, oedran cychwyn ac amgyffredion o niwed, yn sgil dosbarthu myfyrwyr ar hap i dderbyn cwestiynau’n cyfeirio at ‘e-sigaréts’ neu ‘e-sigaréts/fêps’.

Dulliau

Dylunio'r astudiaeth a sampl yr astudiaeth

Mae Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith) yn arolwg trawstoriadol mewn ysgolion, a gyflwynir i bobl ifanc 11-16 oed (blynyddoedd ysgol 7-11 y DU) yng Nghymru, bob dwy flynedd. Mae'r ffrâm samplu'n cynnwys pob ysgol uwchradd a gynhelir ('cyhoeddus') ($n=205$) a saith ysgol annibynnol ('preifat'). Mae dyluniad yr Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr yn cefnogi pedwar llwybr cynrychioliadol yn genedlaethol drwy'r arolwg, gan olygu bod rhai cwestiynau yn yr arolwg yn cael eu gofyn i fyfyrwyr ym mhob ysgol (e.e. demograffeg-gymdeithasol), a gofynnir eraill i is-samplau yn unig o ysgolion. Defnyddir hapsamplu haenedig i neilltuo ysgolion i lwybrau'r arolwg (gweler ⁶ am fanylion pellach am ddylunio'r arolwg iechyd a lles myfyrwyr).

Yn arolwg 2023, defnyddiwyd y dyluniad hwn i gefnogi ymagwedd arbrofol at gwestiynau ar ddefnyddio e-sigaréts. Gofynnwyd cwestiynau i oddeutu hanner y sampl ar ddefnyddio 'e-sigaréts' ($n = 66,881 / 51.5\%$), sy'n cyd-fynd â'r geiriau mewn arolygon blaenorol iechyd a lles myfyrwyr. Cafodd gweddill y sampl gwestiynau ar ddefnyddio 'e-sigaréts/fêps' ($n = 62,880 / 48.5\%$). Cafwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr

2023 y Rhwydwaith gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol

Prifysgol Caerdydd.

Mesurau

Defnyddio e-sigaréts

Tynnwyd mesurau ar gyfer defnyddio fyth a defnyddio'n rheolaidd (o leiaf yn wythnosol), oedran cychwyn, ac amgyffredion o niwed yn gysylltiedig ag ysmegu tybaco, o ymatebion i gwestiynau yn cyfeirio at 'e-sigaréts' neu 'e-sigaréts/fêps'. Cafodd ymatebion 'Dydw i ddim eisiau ateb' eu hepgor. Adroddir yr holl ddulliau mesur deilliannau yn llawn mewn atodiadau.

Mesurau Eraill

Cafodd rhywedd myfyrwyr, grŵp blwyddyn ysgol (dirprwy ar gyfer oedran), statws economaidd gymdeithasol (trwy'r raddfa cyfoeth teuluol),⁷ a'r defnydd ar sylweddau (ysmygu'n wythnosol, defnyddio cannabis yn y mis diwethaf, yfed alcohol fyth), eu defnyddio i asesu tebygrwydd rhwng y samplau.

Dadansoddiad

Cafodd myfyrwyr a roddodd y gorau i'r arolwg cyn y cwestiynau ar ysmegu ac e-sigaréts eu hepgor o'r dadansoddiadau ($n=3,498$; 2.7%). Roedd y ganran ar goll yn y grŵp e-sigaréts yn 3.3% ($n=2,215$) ac roedd yn 2.0% ($n=1,283$) yn y grŵp e-sigaréts/fêps. Roedd nifer cwestiynau ac eitemau'r arolwg yr amlygwyd myfyrwyr iddynt cyn cael cwestiynau am ysmegu ac e-sigaréts yn weddol debyg ar draws llwybrau'r arolwg (gweler **Tabl 1**):

Tabl 1: Tebygrwydd grwpiau yn ôl maint y sampl, amlygiad i gwestiynau a'r ganran ar goll

Grŵp	Llwybr yr arolwg (maint y sampl)	Nifer y cwestiynau (ac eitemau) yr amlygwyd myfyrwyr iddynt cyn y cwestiynau ar ysmegu	Nifer (%) a roddodd y gorau i'r arolwg cyn y cwestiynau ar ysmegu	Maint y sampl dadansoddol (% cyfanswm y sampl yn y llwybr)
E-sigaréts ($n=66,881$)	1 (36,150)	28 (33)	1,213 (3.4)	34,937 (96.6)
	3 (30,731)	27 (32)	1,002 (3.3)	29,729 (96.7)
E-sigaréts/fêps ($n=62,880$)	2 (29,851)	26 (31)	555 (1.9)	29,296 (98.1)
	4 (33,029)	26 (31)	728 (2.2)	32,301 (97.8)

Fe wnaeth atchweliadau logisteg asesu gwahaniaethau rhwng grwpiau yn ôl mesuriadau demograffig a mesuriadau defnyddio sylweddau. Fodd bynnag, dylai dyluniad yr arolwg ieched a lles myfyrwyr, a neilltuodd ysgolion (ac felly myfyrwyr) ar hap i dderbyn cwestiynau am e-sigaréts neu e-sigaréts/fêps, fod wedi lleihau cyfleoedd am duedd.

Archwiliwyd gwahaniaethau mewn deilliannau gan ddefnyddio modelau atchwel logistaidd,

trefnol, neu luosnomaidd, gyda'r grŵp (e-sigaréts neu e-sigaréts/fêps) yn amlygiad.

Defnyddiwyd cyfeiliornadau safonol cadarn i addasu ar gyfer clystyru ar lefel ysgol.

Canlyniadau

Yn gyffredinol, atebodd 64,666 (51.2%) o fyfyrwyr gwestiynau ar e-sigaréts ac atebodd 61,597 (48.8%) gwestiynau ar e-sigaréts/fêps. Mae **Tabl 2** yn cyflwyno nodweddion myfyrwyr a'r defnydd o sylweddau yn ôl grŵp. Roedd gan fyfyrwyr yn y ddau grŵp ddemograffig tebyg a defnydd tebyg o sylweddau, heblaw defnyddio alcohol fyth, a oedd ychydig yn uwch yn y grŵp e-sigaréts (36.7% o gymharu â 34.5%, $p=0.04$). Cyflwynir deilliannau yn ôl grŵp yn **Nhabl 3**. Ni ddarparodd modelau atchwel unrhyw dystiolaeth ystadegol am fân wahaniaethau mewn defnydd fyth (OR=1.08, 95% CI: 0.98, 1.18), defnydd rheolaidd (OR=0.96, 95% CI: 0.84, 1.09), neu oedran cychwyn (OR=0.99, 95% CI: 0.91, 1.07) rhwng grwpiau.

Tabl 2: Nodweddion myfyrwyr a'r defnydd o sylweddau yn y grwpiau e-sigaréts ac e-sigaréts/fêps

Nodwedd	n (%)		gwerth-P ^a
	e-sigaréts (n = 64,666)	e-sigaréts / fêps (n = 61,597)	
Rhywedd			0.292
Bachgen	32,061 (49.6)	30,063 (48.8)	
Merch	30,954 (47.9)	29,942 (48.6)	
Nid yw'r un gair yn fy nisgrifio i	959 (1.5)	879 (1.4)	
Dydw i ddim eisiau ateb	692 (1.1)	713 (1.2)	
Grŵp blwyddyn			0.989
7 (11-12 oed)	14,088 (21.8)	13,315 (21.6)	
8 (12-13 oed)	13,763 (21.3)	13,149 (21.4)	
9 (13-14 oed)	13,353 (20.7)	12,794 (20.8)	
10 (14-15 oed)	12,122 (18.8)	11,555 (18.8)	
11 (15-16 oed)	11,340 (17.5)	10,784 (17.5)	
Statws economaidd-gymdeithasol ^b			0.686
Isel	8,029 (12.4)	7,456 (12.1)	
Canolig	21,930 (33.9)	20,641 (33.5)	
Uchel	30,329 (46.9)	29,169 (47.4)	
Ar goll	4,378 (6.8)	4,331 (7.0)	
Ysmygu'n wythnosol	1,703 (2.7)	1,581 (2.7)	0.660
Defnyddio canabis yn y 30 diwrnod diwethaf	2,642 (4.3)	2,424 (4.1)	0.444
Defnyddio alcohol fyth	22,500 (36.7)	20,153 (34.4)	0.046

^a Gwerthoedd-p seiliedig ar atchwel logistaidd gydag addasiad ar gyfer clystyru lefel ysgol; ^b mesurwyd trwy'r raddfa cyfoeth teuluol 6 eitem (FAS III).⁷ Mae sgorau FAS yn amrywio o sero i 13, gyda sgorau uwch yn adlewyrchu mwy o gyfoeth teuluol. Cafodd sgorau eu categoreiddio fesul isel (0-6), canolig (7-9), ac uchel (10-13).

Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth o wahaniaethau rhwng grwpiau yn yr amgyffredion o niwed – er bod graddau'r amrywiaeth yn fach ar y cyfan, yn amrywio rhwng 1.1. a 4.1 pwynt canran (yn cynnwys y cyfyngiadau hyder), ac roedd patrymau cyffredinol yr ymatebion yn debyg. Myfyrwyr yn y ddau grŵp oedd fwyaf tebygol o amgyffred bod ysmygu e-sigaréts a thybaco yr un mor niweidiol i iechyd ac yn lleiaf tebygol o amgyffred bod e-sigaréts yn fwy niweidiol: roedd hyn yn gyson ymhlith defnyddwyr e-sigaréts fyth ac erioed. Roedd

defnyddwyr erioed yn y grŵp e-sigaréts/fêps yn fwy tebygol na'r rhai yn y grŵp e-sigaréts o amgyffred bod naill ai tybaco (RRR=1.24, 95% CI: 1.17, 1.32) neu e-sigaréts (RRR=1.24, 95% CI: 1.15, 1.35) yn fwy niweidiol i iechyd nag ystyried bod y ddau sylwedd yr un mor niweidiol. Roedd defnyddwyr fyth yn y grŵp e-sigaréts/fêps yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn gwybod pa sylwedd oedd yn fwyaf niweidiol (RRR=1.17, 95% CI: 1.07, 1.28).

Tabl 3: Adroddiadau am ddefnyddio, oedran cychwyn ac amgyffredion o niwed yn y grwpiau e-sigaréts ac e-sigaréts/fêps

Deilliant	Amlygiad – Canran (95% CI)		cyfernod (95% CI) ^a	gwerth-P
	e-sigaréts	e-sigaréts/fêps		
Defnyddio fyth (<i>n</i> =118,485) [^]	25.0 (24.7, 25.4)	26.4 (26.1, 26.8)	1.08 (0.98, 1.18)	0.116
Defnyddio'n rheolaidd (<i>n</i> =116,859) [^]	7.1 (6.9, 7.3)	6.8 (6.6, 7.1)	0.96 (0.84, 1.09)	0.510
Oedran defnyddio gyntaf (<i>n</i> =25,273) [*]			0.99 (0.91, 1.07)	0.811
11 oed neu iau	19.7 (19.0, 20.4)	19.8 (19.1, 20.5)		
12 oed	24.5 (23.8, 25.3)	24.2 (23.5, 25.0)		
13 oed	26.7 (26.0, 27.5)	26.9 (26.1, 27.7)		
14 oed	18.5 (17.8, 19.2)	19.2 (18.5, 20.0)		
15 oed	8.6 (8.2, 9.1)	8.4 (7.9, 8.9)		
16 oed	2.0 (1.8, 2.3)	1.5 (1.3, 1.7)		
Amgyffredion o niwed – defnyddio erioed (<i>n</i> =86,805) ¥				
Tybaco'n waeth	15.8 (15.5, 16.1)	18.4 (18.0, 18.8)	1.24 (1.17, 1.32)	<0.001
E-sigaréts yn waeth	6.7 (6.5, 7.0)	7.8 (7.6, 8.1)	1.24 (1.15, 1.35)	<0.001
Y ddau yr un mor niweidiol	51.3 (50.9, 51.8)	48.2 (47.7, 48.7)	Cyfeirnod	
Dydw i ddim yn gwybod	26.2 (25.8, 26.6)	25.5 (25.1, 26.0)	1.04 (0.98, 1.11)	0.233
Amgyffredion o niwed – defnyddio fyth (<i>n</i> =29,653) ¥				
Tybaco'n waeth	27.8 (27.1, 28.5)	28.5 (27.8, 29.2)	1.09 (1.00, 1.18)	0.043
E-sigaréts yn waeth	11.9 (11.4, 12.4)	12.0 (11.5, 12.5)	1.07 (0.97, 1.18)	0.198
Y ddau yr un mor niweidiol	43.7 (42.9, 44.5)	41.2 (40.4, 42.0)	Cyfeirnod	
Dydw i ddim yn gwybod	16.6 (16.0, 17.2)	18.3 (17.7, 18.9)	1.17 (1.07, 1.28)	0.001

^a Cymarebau'r ods a adroddwyd ar gyfer modelau atchwel logistaidd a (^) threfnol (*) a chymarebau risg cymharol (¥) ar gyfer modelau lluosnomaidd. Addaswyd pob model ar gyfer clystyru lefel ysgol gyda'r grŵp (e-sigaréts neu e-sigaréts/fêps) yn amlygiad.

Trafodaeth

Darganfu'r astudiaeth hon nad oedd defnyddio'r term 'e-sigaréts' neu 'e-sigaréts/fêps' yn effeithio'n sylweddol ar ymatebion i gwestiynau ar ddefnyddio'r dyfeisiau hyn ymhlith sampl fawr o'r glasoed a oedd yn ateb arolwg cenedlaethol yn yr ysgol yng Nghymru.

Mae'r canfyddiadau hyn yn pwysleisio ymchwil flaenorol fod 'e-sigaréts' a 'fêps' yn dermau cyfarwydd, sy'n cael eu defnyddio'n helaeth,^{2, 3} ac maent yn awgrymu nad yw cwestiynau'n cyfeirio'n benodol at ddefnyddio e-sigaréts ymhlith arolygon o'r boblogaeth pobl ifanc yn arwain ar hyn o bryd at danamcangyfrifiadau mewn cyffredinolrwydd.

Gwelwyd mân wahaniaethau rhwng grwpiau o ran amgyffredion o niwed e-sigaréts, ond ni wnaeth y rhain arwain at dueddiadau cyferbyniol a gallant adlewyrchu goddrychedd estynedig y cwestiwn o gymharu â'r cwestiynau ar ddefnydd. Mae tystiolaeth bresennol yn gymysg o ran amgyffredion y glasoed o niwed e-sigaréts.⁸ Yn flaenorol, mae canfyddiadau trawstoriadol mynych o'r Unol Daleithiau, Lloegr a Chanada wedi dangos dirywiad yng nghyfran y glasoed sy'n amgyffred bod e-sigaréts yn llai niweidiol nag ysmegu tybaco.⁹ Mae ymchwil ddiweddar yn y DU yn dangos twf yng nghyfran y glasoed sy'n amgyffred yn anghywir fod y ddau sylwedd yr un mor niweidiol i ieched.¹⁰

Cryfder yr astudiaeth hon yw ei bod yn defnyddio sampl genedlaethol fawr o bobl ifanc 11 i 16 oed, gan gynyddu'r tebygolrwydd y gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i gyd-destunau tebyg eraill. Mae'r dyluniad sampl ranedig a ddefnyddiwyd yma hefyd yn adlewyrchu'r dyluniad a ddefnyddiwyd gan arolygon cenedlaethol eraill (gweler er enghraifft¹¹, tudalen 68) wrth asesu effeithiau newidiadau i eiriad cwestiynau ar ymateb y cyfranogwyr.

Cyfyngiad yw ein bod wedi dewis, yn fwriadol, peidio ag asesu termau yn annibynnol – cafodd y term 'e-sigaréts' ei gynnwys mewn cwestiynau i'r ddau grŵp. Roedd hyn yn cael ei ffafrio o safbwynt datblygu'r arolwg gan ei fod yn cynnig ateb ymarferol i'r ffordd orau o symud ymlaen, os byddai'r ymatebion yn debyg.

Cyfeiriadau

1. Feeney S, Rossetti V, and Terrien J. E-Cigarettes—a review of the evidence—harm versus harm reduction. *Tob Use Insights*. 2022;15doi:10.1177/1179173X221087524
2. Pearson JL, Reed DM, and Villanti AC. Vapes, E-cigs, and Mods: What Do Young Adults Call E-cigarettes? *Nicotine Tob Res*. 2020;22(5):848-852.
3. Walker KL, McLeish AC, Wood LA, and Hart JL. Vape Gods, Vape Lords, and Fiends: The Language of Vaping. *Youth*. 2023;3:1421-1428.
4. Morean ME, Camenga DR, Bold KW, et al. Querying about the use of specific e-cigarette devices may enhance accurate measurement of e-cigarette prevalence rates among high school students. *Nicotine and Tobacco Research*. 2020;22(5):833-837.
5. Page LA, Henderson M. Appraising the evidence: what is measurement bias? *Evidence Based Mental Health*. 2008;11(2):36-37. doi:10.1136/ebmh.11.2.36
6. Page N, Liu S, Angel L, et al. Data Resource Profile: The School Health Research Network (SHRN) Student Health and Well-being (SHW) Survey of 11-16-year-olds (2017-2023). *Int J Epidemiol*. 2024;doi:10.1093/ije/dyae161

7. Hartley JEK, Levin K, and Currie C. A new version of the HBSC Family Affluence Scale - FAS III: Scottish Qualitative Findings from the International FAS Development Study. *Child Indic Res.* 2016;9:233-245. doi:10.1007/s12187-015-9325-3
8. Sharma A, McCausland K, and Jancey J. Adolescents' health perceptions of E-cigarettes: A systematic review. *Am J Prev Med.* 2021;60(5):716-725.
9. East K, Reid JL, Burkhalter R, et al. Exposure to Negative News Stories About Vaping, and Harm Perceptions of Vaping, Among Youth in England, Canada, and the United States Before and After the Outbreak of E-cigarette or Vaping-Associated Lung Injury ('EVALI'). *Nicotine Tob Res.* 2022;24(9):1386-1395. doi:10.1093/ntr/ntac088
10. Action on Smoking and Health (ASH). Use of vapes (e-cigarettes) among young people in Great Britain. 2024. <https://ash.org.uk/uploads/Use-of-vapes-among-young-people-in-Great-Britain-2024.pdf?v=1725288402>
11. Llywodraeth Cymru. Arolwg Cenedlaethol Cymru: Holiadur 2018-19. nd,. <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-01/national-survey-wales-questionnaire-2018-19.pdf>

Atodiad

Mae cwestiynau gwreiddiol ('e-sigaréts') a diwygiedig ('e-sigaréts/fêps') yr arolwg a ddefnyddiwyd wrth gasglu data wedi'u darparu isod.

Erioed wedi defnyddio e-sigaréts

(Gwreiddiol)

Wyt ti fyth wedi trio sigaréts electronig (sydd weithiau'n cael eu galw'n 'e-sigaréts')?

Dydw i erioed wedi trio e-sigaréts
Rydw i wedi trio e-sigaréts unwaith
Rydw i wedi trio e-sigaréts fwy nag unwaith
Dydw i ddim eisiau ateb

(Diwygiedig)

Wyt ti fyth wedi trio sigaréts electronig / fêps (sy'n cael ei alw'n fepio, fel arfer)?

Dydw i erioed wedi trio e-sigaréts / fêps
Rydw i wedi trio e-sigaréts / fêps unwaith
Rydw i wedi trio e-sigaréts / fêps fwy nag unwaith
Dydw i ddim eisiau ateb

Defnyddio e-sigarets ar hyn o bryd

(Gwreiddiol)

Pa mor aml wyt ti'n defnyddio e-sigaréts ar hyn o bryd?

Bob dydd
O leiaf unwaith yr wythnos, ond nid bob dydd
Llai nag unwaith yr wythnos
Dydw i ddim yn defnyddio e-sigaréts ar hyn o bryd
Dydw i ddim eisiau ateb

(Diwygiedig)

Pa mor aml wyt ti'n defnyddio e-sigaréts / fêps ar hyn o bryd?

Bob dydd
O leiaf unwaith yr wythnos, ond nid bob dydd
Llai nag unwaith yr wythnos
Dydw i ddim yn defnyddio e-sigaréts / fêps ar hyn o bryd
Dydw i ddim eisiau ateb

Amgyffredion o niwed e-sigaréts o gymharu â thybaco

(Gwreiddiol)

Pa un o'r datganiadau canlynol wyt ti'n cytuno fwyaf ag ef?

Mae sigaréts tybaco yn waeth i dy ieched nag e-sigaréts
Mae e-sigaréts yn waeth i dy ieched na sigaréts tybaco
Mae tybaco ac e-sigaréts yr un mor ddrwg i dy ieched
Dydw i ddim yn gwybod
Dydw i ddim eisiau ateb

(Diwygiedig)

Pa un o'r datganiadau canlynol wyt ti'n cytuno fwyaf ag ef?

Mae sigaréts tybaco yn waeth i dy ieched nag e-sigaréts / fêps
Mae e-sigaréts / fêps yn waeth i dy ieched na sigaréts tybaco
Mae tybaco ac e-sigaréts / fêps yr un mor ddrwg i dy ieched
Dydw i ddim yn gwybod
Dydw i ddim eisiau ateb

Oedran defnyddio e-sigarets gyntaf

(Gwreiddiol)

Beth oedd dy oedran pan wnest ti'r pethau canlynol am y tro cyntaf? Os oes rhywbeth nad wyt ti wedi'i wneud, dewisa categori 'erioed'.

Defnyddio e-sigarét (mwy nag anadlu i mewn unwaith)

Erioed
11 oed neu iau
12 oed
13 oed
14 oed
15 oed
16 oed
Dydw i ddim eisiau ateb

(Diwygiedig)

Beth oedd dy oedran pan wnest ti'r pethau canlynol y tro cyntaf? Os oes rhywbeth nad wyt ti wedi'i wneud, dewisa categori 'erioed'.

Defnyddio e-sigarét / fêp (mwy nag anadlu i mewn unwaith)

Erioed

11 oed neu iau

12 oed

13 oed

14 oed

15 oed

16 oed

Dydw i ddim eisiau ateb



THE SCHOOL
HEALTH RESEARCH
NETWORK

shrn.org.uk



Cedwir pob hawl.
I amddiffyn cyfrinachedd, modelau sy'n ymddangos ym
mhob ffotograff.
Cyhoeddwyd gyntaf gan y Rhwydwaith © 2025.